Mae'n bryd...
gweithredu

Arwain Cymru Allan o'r Dirwasgiad | Leading Wales Out of Recession

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

ProAct

Ariannu i wella sgiliau yn ystod y dirywiad economaidd

Beth ydyw?

Mae **ProAct** yn becyn o gefnogaeth ariannol i helpu busnesau sy'n economaidd hyfyw i ymdopi â'r dirywiad economaidd ac i ddefnyddio cyfnodau tawel ar gyfer gwella sgiliau'r staff fel eu bod yn barod ar gyfer yr amser pan fydd y sefyllfa economaidd yn gwella.

Mae'n darparu hyfforddiant ychwanegol i weithwyr sy'n gweithio oriau gwaith byrrach. Mae hefyd yn helpu busnesau i gadw staff sgiliedig y byddai'n rhaid iddynt eu diswyddo fel arall.

Dim ond i fusnesau sydd wedi cyflwyno oriau gwaith byrrach ac sy'n wynebu bygythiad diswyddo y mae **ProAct** ar gael.

Mae ar gael i ddechrau am 12 mis, hyd fis Mawrth 2010.

Pa gefnogaeth ariannol allai fy musnes ddisgwyl ei derbyn?

Mae **ProAct** yn hyblyg, ond yn fras mae'n cynnig:

- hyd at £2,000 i bob unigolyn i helpu gyda chostau hyfforddi
- cymhorthdal cyflog o hyd at £2,000 (ar gyfradd o £50 y dydd) i bob unigolyn ar gyfer cyfnod yr hyfforddi
- cyngor arbenigol un-i-un yn rhad ac am ddim er mwyn helpu i lunio Cynllun Hyfforddi **ProAct**.

Ymhle ydw i'n cychwyn?

Cysylltwch â'n tîm **Sgiliau • Pobl • Llwyddiant** ar **0845 60 661 60** i gael rhagor o wybodaeth.

Pwy allai ddefnyddio ProAct?

Mae **ProAct** ar gael i fusnesau sector preifat:

- oedd yn economaidd hyfyw cyn y dirywiad economaidd (bydd yn rhaid dangos gwybodaeth i gefnogi hyn fel rhan o'r broses ymgeisio).
- sydd wedi cyflwyno – neu'n bwriadu cyflwyno oriau gwaith byrrach ar lefel o 20% o leiaf (un diwrnod yr wythnos)
- wedi dileu swyddi neu'n ystyried dileu swyddi ac sydd wedi cyflwyno oriau gwaith byrrach fel ffordd o osgoi diswyddiadau – (fel bod arian **ProAct** wedi'i ddefnyddio i osgoi diswyddiadau hefyd)
- sydd heb dderbyn Ariannu Ewropeaidd sylweddol dros y tair blynedd diwethaf (gofynnwch am gyngor os ydych yn ansicr).

Sut mae'n gweithio?

- Rydych yn llunio Achos Busnes sy'n esbonio eich sefyllfa ac yn dweud pam fo angen cymorth **ProAct** arnoch. Bydd un o Banelau **ProAct** yn ystyried yr Achos Busnes yma. Os bydd yn llwyddiannus byddwch yn cael cynghorydd penodol i'ch helpu i baratoi eich Cynllun Hyfforddiant **ProAct**.
- Bydd y cynllun yn cynnwys manylion yr unigolion a'r hyfforddiant y byddent yn ei wneud.
- Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich Cynllun Hyfforddiant a'ch Taenlen Gweithwyr i Dîm **ProAct** i dderbyn cymeradwyaeth. Yna, pan fydd eich cais wedi'i gymeradwyo, gall yr hyfforddiant fynd rhagddo.
- Bydd tîm **ProAct** yn talu'r costau hyfforddi yn uniongyrchol i ddarparydd yr hyfforddiant. Bydd y cymhorthdal cyflogau wedi'i dalu'n syth i chi mewn pedwar ôl-daliad cyfartal yn wythnosau 4, 16, 36, a 52 ar yr amod bod yr hyfforddiant **ProAct** yn cael ei ddarparu fel mae'r cynllun yn ei nodi.

Pa fath o hyfforddiant ddylai gael ei ddarparu?

Mae **ProAct** ar gael i helpu busnesau baratoi ar gyfer y gwelliant economaidd drwy wella'r lefelau sgiliau a darparu gweithlu mwy hyblyg sydd â sgiliau niferus. Dylai'r hyfforddiant ganolbwyntio'n gryf ar gyflawni'r canlyniadau rydych wedi'u disgrifio yn eich achos busnes. Hefyd, dylai'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant fod yn achrededig, a naill ai'n gymhwyster llawn neu rannol.

Bydd eich Cyngor Sgiliau Sector yn gallu rhoi cyngor i chi ar y cymwysterau a'r cyrsiau mwyaf priodol – gallwch weld rhagor o fanylion ar **www.ukces.org.uk**

Gallwch ddefnyddio'r cymhorthdal cyflogau hefyd i ddiogelu swyddi eich prentisiaid presennol er mwyn sicrhau eu bod yn cwblhau eu cymwysterau llawn – i ganfod rhagor ffoniwch **0845 60 661 60**.

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Cymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund